

# FFORWM 50+

## AROLWG 7

### 2010



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government





**recycle  
ailgylchu**

Please recycle this publication  
Cofiwch ailgylchu'r cyhoeddiad yma

**100% wedi'i ailgylchu**

Argraffwyd ar bapur mae 100% ohono wedi'i ailgylchu

# Byw yn Sir Gaerfyrddin

**C1** Beth yw pedwar digid cyntaf eich cod post?

**Q2** Am ba mor hir ydych chi wedi byw yn eich ardal leol? *(Ticiwch un blwch yn unig)*

- Hyd at flwyddyn
- 1-2 o flynyddoedd
- 3-5 o flynyddoedd
- 6-10 o flynyddoedd
- 11-15 o flynyddoedd
- 16-20 o flynyddoedd
- 21-30 o flynyddoedd
- Dros 30 o flynyddoedd

**C3** Yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â Sir Gaerfyrddin fel lle i fyw ynddo?  
*(Ticiwch un blwch yn unig)*

- Anfodlon iawn
- Eithaf anfodlon
- Eithaf bodlon
- Bodlon iawn
- Ddim yn gwybod

**C4** Yn gyffredinol, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ydych chi'n meddwl fod yr ardal leol wedi....?  
*(Ticiwch un blwch yn unig)*

- Gwaethygu
- Aros yr un fath
- Gwella
- Ddim yn gwybod

**C5** Os ydych chi'n teimlo bod yr ardal wedi gwella neu waethygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ym mha ffyrdd yr ydych chi'n teimlo mae'r ardal wedi newid?

Yn dilyn trafodaethau diweddar, cytunwyd gan Fwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Gaerfyrddin a phartneriaethau strategol i ddatblygu Strategaeth Gymunedol Integredig a fydd yn ymgorffori'r Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol, y Strategaeth Diogelwch Cymunedol, y Strategaeth Adfywio a'r Strategaeth Amgylcheddol.

**C6** Bydd gan y Strategaeth Gymunedol Integredig un weledigaeth drawsffiniol. I ba raddau y byddech yn cytuno y dylem geisio dilyn y weledigaeth...?

*(Ticiwch un bocsy yn unig)*

**“Galluogi pobl i fyw bywyd iach a chyflawn drwy gydweithio i greu cymunedau cadarn, dwyieithog a chynaliadwy.”**

- Anghytuno'n gryf
- Tueddu i anghytuno
- Tueddu i gytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**C7** Esboniwch eich ymateb os gwelwch yn dda

**C8** Bydd gan y Strategaeth Gymunedol Integredig 5 deilliant all gyfrannu at ein gweledigaeth drawsffiniol.

**Rhowch y canlynol mewn trefn o ran yr hyn sy'n bwysig i chi (1 = y mwyaf pwysig i chi, 5 = ddim yn bwysig i chi)** *(Ysgrifennwch rif ymhob bocsy, a pheidiwch â defnyddio'r un rhif ddwywaith)*

- Bydd pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
- Bydd pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial dysgu
- Bydd pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Sir Gaerfyrddin yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
- Bydd cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
- Bydd economi gryfach a mwy ffyniannus gan Sir Gaerfyrddin

**Er mwyn cyflawni hyn, mae yna nodau y byddwn yn gweithio tuag atynt fel partneriaethau ledled y Sir.**

**C9** Rhowch y saith nod canlynol ar gyfer y deilliant - **“Bydd pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach” yn nhrefn eu pwysigrwydd i chi. (1 = y pwysicaf, 7 = ddim yn bwysig)**

*(Ysgrifennwch rif ymhob bocsy a pheidiwch â defnyddio'r un rhif ddwywaith)*

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Atal afiechydon ac annog ffordd iach o fyw
- Gwella Iechyd a Lles Emosiynol a Meddyliol holl drigolion y Sir
- Lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd
- Gwella cyflwr tai a lleihau digartrefedd
- Ehangu mynediad at ofal iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pawb, gan gynnwys grwpiau o bobl sy'n agored i niwed
- Lleihau camddefnydd o gyffuriau ac alcohol

**C10** Rhowch y pum nod canlynol mewn trefn ar gyfer y deilliant - "Bydd pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyrraedd eu potensial dysgu llawn" yn nhrefn eu pwysigrwydd i chi. (1 = mwyaf pwysig, 5 = ddim yn bwysig)  
(Ysgrifennwch rif ymhob bocs, a pheidiwch â defnyddio'r un rhif ddwywaith)

- Darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgu gydol oes a datblygiad
- Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu'r cyfle i bawb gael gwaith i bawb
- Cefnogi rhieni a theuluoedd er mwyn datblygu addysg eu plant
- Datblygu cymdeithas gynhwysol
- Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant, addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

**C11** Rhowch y chwe nod ganlynol ar gyfer y deilliant - "Bydd pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Sir Gaerfyrddin yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel" yn nhrefn eu pwysigrwydd i chi. (1 = mwyaf pwysig, 6 = ddim yn bwysig) (Ysgrifennwch rif ymhob bocs, a pheidiwch â defnyddio'r un rhif ddwywaith)

- Cynnal lefelau tor cyfraith sydd ymysg yr isaf yng Nghymru a Lloegr
- Cynyddu hyder ymysg cymunedau lleol eu bod yn tacio'r materion sydd bwysicaf iddyn nhw, ac sy'n effeithio ar lefelau tor cyfraith
- Lleihau ymddygiad gwrth gymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth er mwyn ymdrin â phroblemau yn lleol
- Gweithio er mwyn lleihau nifer yr achosion o drais sy'n berthnasol i alcohol
- Diogelu plant a phobl ifanc rhag camddefnydd, erledigaeth, esgeulustod ac ecsploetiaeth
- Lleihau goryrru a nifer y damweiniau ffordd

**C12** Rhowch y saith nod canlynol ar gyfer y deilliant - "Bydd cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy" mewn trefn yn ôl eu pwysigrwydd i chi. (1 = y mwyaf pwysig, 7 = ddim yn bwysig)  
(Ysgrifennwch rif ymhob bocs, a pheidiwch â defnyddio'r un rhif ddwywaith)

- Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol, gan ddefnyddio ein cyfran deg ni o adnoddau'r ddaear
- Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir ddiwastraff
- Cefnogi cyfleoedd ar gyfer adeiladu cymunedau ac economi dichonadwy a chynaliadwy
- Diogelu, gwella a gwarchod ein amgylchedd naturiol ac adeiledig a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y Sir
- Datblygu cymunedau gwydn a chynaliadwy
- Datblygu opsiynau cludiant cynaliadwy
- Sicrhau hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

**C13** Rhowch y pum nod canlynol ar gyfer y deilliant - "Bydd economi gryfach a mwy ffyniannus gan Sir Gaerfyrddin" mewn trefn yn ôl eu pwysigrwydd i chi. (1 = y mwyaf pwysig, 5 = ddim yn bwysig)  
(Ysgrifennwch rif ymhob bocs, a pheidiwch â defnyddio'r un rhif ddwywaith)

- Cadw a denu pobl ifanc i'r Sir a gwneud y mwyaf o'u cyflawniadau a'u dyheadau
- Creu swyddi o ansawdd uchel ledled y Sir drwy waith datblygu a buddsoddiad
- Sicrhau bod buddsoddiad yn aros o fewn yr economi leol
- Ymdrin â thlodi a'i effaith ar yr economi leol
- Creu gweithlu ac economi dwyieithog

**C14** Oes yna unrhyw ddeilliant neu nodau yr hoffech chi weld yn cael eu cynnwys er mwyn cyflawni'r weledigaeth?

**C15** Bydd y Strategaeth Gymunedol Integredig yn darparu cyfleoedd newydd i sefydliadau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin fel y Cyngor, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant, i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer trigolion Sir Gaerfyrddin.

**Yn eich tyb chi, pa mor bwysig yw hi i sefydliadau weithio gyda'i gilydd?** *(Ticiwch un bocs yn unig)*

- Ddim yn bwysig
- Cymharol ddibwys
- Cymharol bwysig
- Pwysig iawn
- Ddim yn gwybod

**C16** A oes yna unrhyw wasanaethau neu feysydd gwaith y gellid eu gwella drwy sicrhau fod y sefydliadau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn gweithio ynghyd?

**C17** A fydddech chi'n hoffi derbyn gwybodaeth am y Strategaeth Gymunedol Integredig yn y dyfodol?  
*(Ticiwch un bocs yn unig)*

- Hoffwn (Ewch i gwestiwn 18)
- Na (Ewch i gwestiwn 19)

**C18** Rydym yn awyddus i ddatblygu gwybodaeth yn y dyfodol sy'n ateb eich anghenion. Sut fydddech chi'n hoffi derbyn gwybodaeth ynghylch y Strategaeth Gymunedol Integredig?  
*(Ticiwch bopeth sy'n berthnasol)*

- Drwy arolygon yn y dyfodol
- Drwy gylchlythyron 50+ yn y dyfodol
- Drwy ddigwyddiadau fforwm 50+ yn y dyfodol
- Drwy wefan y fforwm 50+

**C19** Nodwch unrhyw syniadau neu argymhellion pellach yma

# Ailgylchu Gwastraff Bwyd

Mae casglu gwastraff bwyd yn digwydd yn wythnosol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r bocs bach brown ar gyfer eich cegin – mae'n gynhwysydd ar gyfer eich gwastraff bwyd o ddydd i ddydd. Pan fydd hwn yn llawn, gallwch drosglwyddo'r cynnwys i'r bin mawr gwyrdd y gallwch ei gadw tu allan.

Gall gwastraff bwyd wedi ei goginio a heb ei goginio gael ei roi yn eich bin gwyrdd, gan gynnwys y canlynol:

- Darnau o fwyd
- Cig a physgod, gan gynnwys yr esgyrn
- Ffrwythau a llysiau gan gynnwys y pilion
- Plisgyn wy
- Bagiau te a choffi wedi eu defnyddio

Rydym yn awyddus i gael y nifer uchaf posib o dai i ailgylchu eu gwastraff bwyd a chyrraedd ein targed ailgylchu - bydd hyd yn oed pethau bach fel bagiau te yn cyfrif ac yn ein helpu i gyrraedd ein targedau ailgylchu.

## C20 Ydych chi yn rhoi eich bin ailgylchu bwyd allan ar gyfer ei gasglu yn wythnosol?

*(Ticiwch un bocs yn unig)*

- Ydw (ewch at gwestiwn 22)
- Nac ydw

## C21 Pam nad ydych chi'n rhoi eich bin ailgylchu bwyd allan er mwyn iddo gael ei gasglu yn wythnosol?

*(Ticiwch bopeth sy'n berthnasol)*

- Does gen i ddim diddordeb mewn ailgylchu unrhyw beth
- Does gen i ddim diddordeb mewn ailgylchu gwastraff
- Mae'n rhy drafferthus
- Mae'n creu llanast
- Mae'n cymryd gormod o amser
- Dydw i ddim yn gwybod pryd mae'r ailgylchu bwyd yn digwydd
- Dydw i ddim yn gwybod os yw'r cynllun ailgylchu bwyd yn weithredol yn fy ardal i
- Nid yw'r cynllun ailgylchu bwyd yn weithredol yn fy ardal i
- Does gen i ddim digon o wastraff i lenwi'r bin gwyrdd bob wythnos
- Dim ond cymaint o fwyd ag y byddaf yn ei fwyta y byddaf yn ei brynu, ac felly dydw i ddim yn gwastraffu bwyd
- Arall (rhowch fanylion) \_\_\_\_\_

## C22 Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r gwasanaeth ailgylchu bwyd sy'n cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Gaerfyrddin? *(Ticiwch un bocs yn unig)*

- Anfodlon iawn
- Cymharol anfodlon
- Cymharol fodlon
- Bodlon iawn
- Ddim yn gwybod/Dim barn

## C23. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y rhaglen ailgylchu gwastraff bwyd neu'r cynllun ailgylchu bag glas?





**C29** I ba raddau mae ymddygiad gwrth gymdeithasol o ganlyniad i alcohol, yn creu problem yn eich cymdogaeth? *(Ticiwch un bocs yn unig)*

- Ddim yn broblem fawr iawn
- Yn broblem weddol fawr
- Yn broblem fawr
- Ddim yn gwybod

**C30** Pa fath o broblemau y mae ymddygiad gwrth gymdeithasol o ganlyniad i alcohol yn achosi yn eich cymdogaeth? *(Ticiwch bopeth sy'n gymwys)*

- Trais
- Fandaliaeth
- Sŵn
- Arall – nodwch os gwelwch yn dda \_\_\_\_\_
- Dim

## Cynllun Rhannu Cartref

Mae Rhannu Cartref yn syniad syml tu hwnt. Yn sylfaenol, mae'n golygu cyfnewid gwasanaeth – cyfnewid llety am gymorth yn y cartref.

Bydd perchennog tŷ yn cynnig llety am lefel o gefnogaeth y cytunwyd arno ymlaen llaw. Gallai'r cymorth fod gyda thasgau yn y cartref, cefnogaeth ariannol, neu gyfuniad o'r ddau. Mae'r cynllun yn sylfaenol yn cydnabod fod gan ddau berson anghenion a rhywbeth i'w gynnig.

Yn gyntaf, bydd person sydd â chartref y maent yn barod i'w rannu, ond eu bod mewn cyfnod o'u bywydau pan fo angen rhywfaint o gymorth a chefnogaeth. Y bobl hyn yw Deiliaid y tŷ. Yn ail, mae'r bobl sydd angen llety, ac sy'n barod i gynnig rhywfaint o gymorth yn cyfnewid am lety. Mae'r bobl hyn yn cael eu galw yn rhanwyr.

Drwy ddod â'r ddau berson hyn at ei gilydd, bydd cynllun Rhannu Cartref yn llwyddo i gael hyd i help, cefnogaeth a sicrwydd i'r perchennog, ac ar yr un pryd yn dod o hyd i gartref i rannwr – rhywle y gallant ei alw'n gartref na allent ei fforddio fel arall.

Bydd y ddwy ochr, a'u teuluoedd, a'r cymunedau'n cael budd o'r trefniant, ac mae'r costau'n isel iawn. Mae lleiafswm o fiwrocratiaeth ynghlwm wrth y broses, ac mae yna weithdrefnau'n bodoli i ddiogelu deiliaid y tŷ a'r rhanwyr.

Ar hyn o bryd, nid oes yna gynllun Rhannu Cartref yn bodoli yn Sir Gaerfyrddin, ond rydym yn cynnal ymchwil dechreuol er mwyn gweld os yw'r angen yn bodoli. Drwy gwblhau'r cwestiynau hyn, ni fyddwch yn ymrwymo i unrhyw gynllun Rhannu Cartref.

### **C31** Ydych chi'n ddeiliaid cartref sydd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn Rhannu Cartref?

*(Ticiwch un bocs yn unig)*

- Ydw
- Nac ydw (Ewch i C 32)

### **C32** Pa rôl fyddai rhanwyr yn ei chwarae i chi? *(Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol)*

- Glanhau eich cartref
- Cynnal a chadw'r Ardd
- Siopa
- Gofalu am anifail anwes
- Paratoi prydau bwyd
- Delio â phost/talu biliau
- Cyfeillgarwch ar gyfer perthynas sydd mewn gofal
- Arall – rhowch fanylion \_\_\_\_\_

### **C33** Ydych chi'n gwybod am ddeiliaid tŷ fyddai o bosib â diddordeb mewn cymryd rhan mewn cynllun o'r fath *(Ticiwch un bocs yn unig)*

- Ydw
- Nac ydw (Ewch i C36)

**C34** Pa rolau allai rhanwr ei gymryd drostynt? (Ticiwch bob blwch sy'n gymwys)

- Glanhau y cartref
- Cynnal a chadw'r Ardd
- Siopa
- Gofalu am anifail anwes
- Paratoi prydau bwyd
- Delio â phost/talu biliau
- Cyfeillgarwch ar gyfer perthynas sydd mewn gofal
- Arall – rhowch fanylion \_\_\_\_\_

**C35** Ydy eich cartref / ei cartref yn agos i gysylltiadau cludiant cyhoeddus? (Ticiwch bob un sy'n gymwys)

- Ydi, arhosfan bysiau
- Ydi, gorsaf drenau
- Ydi, gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus megis Bwcabus neu Dial-a-ride
- Na

**C36** A ydych chi'n rhanwr posib sydd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn cynllun o'r fath? (Ticiwch un bocs yn unig)

- Ydw
- Nac ydw

**C37** Ydych chi'n gwybod am rywun a fyddai'n dymuno bod yn rhanwr o bosib? (Ticiwch un bocs yn unig)

- Ydw
- Nac ydw (Ewch i C41)

**C38** Beth yw eich/eu sefyllfa bresennol? (Ticiwch yr holl focsys sy'n berthnasol)

- Myfyriwr
- Myfyriwr meddygol
- Gweithio dramor
- Wedi cael profiad sy'n newid bywyd fel profedigaeth, ysgariad, diweithdra
- Arall– rhowch fanylion \_\_\_\_\_

**C39** Pa un o'r canlynol fyddai'n bwysig i chi wrth benderfynu pa ardal i fyw ynddi? (Ticiwch y cyfan sy'n gymwys)

- Lleoliad gwledig
- Lleoliad trefol
- Agos i arhosfan bysiau
- Agos i orsaf drenau
- Cyfleusterau parcio
- Arall - rhowch fanylion \_\_\_\_\_

**C40** A fyddech chi/nhw am i'r llety fod...? *(Ticiwch un bocs yn unig)*

- Am y tymor hir – y dyfodol rhagweladwy
- Am y tymor byr/ penodol - contract gwaith 1 flwyddyn a.y.b.
- Yn ystod y tymor yn unig

**C41** Beth ydych chi'n tybio yw agweddau cadarnhaol y cynllun Rhannu Cartref?

**C42** Beth ydych chi'n tybio yw agweddau negatif y cynllun Rhannu Cartref?